



**Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys**

Dyfed-Powys

Adroddiad perfformiad cryno chwarter 4 2024/25

Cyflwyniad

Sefydlodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu o fewn pob ardal heddlu yng Nghymru a Lloegr, gan roi cyfrifoldeb iddynt am gyfanrwydd plismona yn eu hardal. Mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawniad gweithredol plismona, gan gynnwys y Gofyniad Plismona Strategol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref.

Mae adran 70 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Protocol Plismona, sy'n berthnasol i bob Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae'r protocol hwn yn nodi rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â'r berthynas bedair rhan, sef Comisiynydd yr heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl, y Panel Heddlu a Throseddu a'r Ysgrifennydd Cartref.

Bydd pob parti yn cadw at y saith egwyddor a nodir yn y Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, a elwir yn Egwyddorion Nolan.

Mae sefydlu a chynnal perthnasau gwaith effeithiol gan y partïon hyn yn hanfodol. Disgwylir y bydd egwyddorion ewyllys da, proffesiynoldeb, didwylledd ac ymddiriedaeth yn sail i'r berthynas rhyngddynt a bydd pob parti yn gwneud eu gorau glas i wneud i'r berthynas weithio.

Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, datblygodd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wiriad iechyd sy'n cwmpasu'r holl feysydd yn y protocol y mae gan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu bŵer a dyletswydd gyfreithiol drostynt. Mae hyn yn cyfateb i 21 maes sy'n cael eu rhannu ymhellach yn 54 maes gweithredu gan wahanol feysydd busnes o fewn SCHTh, mae pedwar o'r rhain wedi'u nodi'n barhaol fel amherthnasol, sy'n gadael 50 maes gweithredu. Cwblheir y rhain yn chwarterol i ddangos cynnydd parhaus.

Rhoddir sgôr coch, melyn, gwyrdd i bob adran i amlygu unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

Gwyrdd - Cydymffurfio'n llawn, dim angen unrhyw waith ychwanegol

Melyn - Cydymffurfio'n rhannol, angen rhywfaint o waith ychwanegol

Coch - Nid yw'n cydymffurfio, nid yw dyletswydd yn cael ei chyflawni ar hyn o bryd.

Mae crynodeb o'r gwiriad iechyd ar gael i'r Panel Heddlu a Throseddu ar ffurf adroddiad, gan gynnwys crynodeb gweithredol o'r chwarter blaenorol.

Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad canlynol yn cwmpasu cyfnod adrodd chwarter 4 y flwyddyn ariannol 2024/25 (Ionawr, Chwefror a Mawrth 2025)

Cymhariaeth statws coch melyn gwyrdd

Yn ystod y chwarter hwn, mae perfformiad nifer o gamau gweithredu wedi newid, mae un cam gweithredu wedi newid o wyrdd i felyn ac mae wyth wedi symud o felyn i wyrdd. Esbonnir y diwygiadau isod:

Mae'r chwarter hwn wedi gweld dau gam gweithredu yn symud o wyrdd i felyn. Eglurir y gwelliant isod

Datblygu Cynllun Cyflenwi ar gyfer yr Heddlu a Throseddau – mae hyn yn newid o wyrdd i felyn wrth ddatblygu Cynllun Busnes / Gweithredol 3-4 blynedd diwygiedig.

Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol i'r panel ar gyflawniad y Comisiynydd Heddlu a Throseddau (CHTh) yn erbyn amcanion y cynllun – mae hyn yn newid o wyrdd i felyn gan fod yr adroddiad i gwmpasu 2024/2025 yn cael ei ddatblygu.

Mae'r chwarter hwn wedi gweld cynnydd wedi'i gyflawni gydag wyth cam gweithredu yn symud o felyn i wyrdd. Esbonnir y diwygiadau isod:

Datblygu ac adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol – mae hyn yn newid o felyn i wyrdd gan fod y fframwaith wedi'i ystyried gan y pwyllgor archwilio ar y cyd a'i gytuno yn y Bwrdd Plismona ar 31 Mawrth. (Mae hyn wedi'i gynnwys mewn dau le yn yr adroddiad hwn (Adrannau 17b ac 18))

Llywio penderfyniad y CHTh ynghylch y praesept – mae hyn yn newid o felyn i wyrdd gan fod y praesept wedi'i ystyried a'i gytuno gan y panel ym mis Ionawr 2025.

Gosod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig – mae hyn yn newid o felyn i wyrdd gan fod y cynllun ar gyfer 2025/26-2029/30 wedi'i gyhoeddi.

Cyllido'r Rhaglen Gyfalaf i ddarparu asedau priodol i'r heddlu i ddarparu gwasanaethau plismona effeithiol – mae hyn yn newid o felyn i wyrdd gan fod y rhaglen wedi'i diwygio i adlewyrchu gofynion yr heddlu ac mae wedi'i dogfennu yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Archwilio a gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu allanol – mae hyn yn newid o felyn i wyrdd gan fod gwaith wedi'i wneud i sicrhau cyfleoedd ariannu allanol.

Datblygu a Gweithredu Fframwaith Llywodraethu ar gyfer Comisiynu a Phartneriaethau – mae hyn yn newid o felyn i wyrdd wrth i system graffu ar wasanaethau a gomisiynir a derbynwyr cyllid y comisiynydd gael ei ymgorffori o fewn strwythur llywodraethu cyffredinol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (SCHTh).

Monitro perfformiad yr holl wasanaethau a gomisiynir, gan sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn darparu gwerth am arian – mae hyn yn newid o felyn i wyrdd gan fod adolygiad o'r holl wasanaethau wedi'i gynnal.

Crynodeb:

O'r 50 maes gweithredu:

	Chwarter 1	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 3	C
Coch	0	0%	0	0%	0	0%	
Melyn	19	38%	21	42%	13	26%	
Gwyrdd	31	62%	29	58%	37	74%	

17a) Gosod cyfeiriad ac amcanion strategol yr heddlu drwy'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae'n rhaid i'r cynllun hwn roi sylw i'r Gofyniad Plismona Strategol

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Datblygu Cynllun Heddlu a Throseddu yn unol â'r gofynion a nodir yn Neddff Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (Rhan 1; Pennod 3; 7)		Lansiwyd y cynllun newydd yn ffurfiol ar 13 Chwefror 2025 mewn gweithdy a oedd yn cynnwys sefydliadau partner. Mae fframwaith perfformiad manwl wedi'i ddatblygu i ddangos tystiolaeth o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yn y cynllun.

		Arweiniodd archwiliad mewnol o ddatblygiad y cynllun at sicrwydd sylweddol i'r SCHTh.
Datblygu Cynllun Cyflawni ar gyfer yr Heddlu a Throseddu er mwyn cefnogi cyflawni'r amcanion a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu		Mae Cynllun Busnes / Gweithredol 3-4 blynedd diwygiedig ar gyfer yr SCHTh yn cael ei ddatblygu. Bydd y Panel Heddlu a Throseddu yn derbyn sesiwn frifio ar wahân mewn perthynas â'r cynnig, a fydd yn cynnwys dull dau gam lle bydd Cynllun Busnes ar gyfer 2025/6 yn cael ei ddatblygu i ddechrau gyda'r bwriad o symud ymlaen i gynllun gweithredol mwy cynhwysfawr.
Adolygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben		Lansiwyd y cynllun newydd yn ffurfiol ar 13 Chwefror 2025 mewn gweithdy a oedd yn cynnwys sefydliadau partner. Mae fframwaith perfformiad manwl wedi'i ddatblygu i ddangos tystiolaeth o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yn y cynllun. Arweiniodd archwiliad mewnol o ddatblygiad y cynllun at sicrwydd sylweddol i'r SCHTh.

17b) Craffu, cefnogi a herio perfformiad cyffredinol yr heddlu gan gynnwys yn erbyn y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y cynllun

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol ar waith i gefnogi craffu effeithiol		Mae trefniadau llywodraethu newydd yn cael eu hymgorffori. Bydd sefydlu fframwaith perfformiad ar gyfer y Cynllun Heddlu a Throseddu newydd yn cefnogi dull mwy penodol o ymdrin â'r Bwrdd Perfformiad Strategol. Mae trefniadau ar gyfer y pwyllgor dethol cyntaf ar y gweill, gyda'r pwnc cyntaf yn canolbwyntio ar wasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu ar gyfer pobl ifanc 18 i 25 oed sy'n troseddu ac yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
Datblygu ac adolygiad blynyddol y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol		Mae Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig wedi'i ddatblygu gan ystyried newidiadau deddfwriaethol diweddar. Mae'r fframwaith wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio ar y Cyd a chafodd ei gytuno yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 31 Mawrth 2025. Mae hyn bellach wedi'i gyhoeddi a'i ddosbarthu i bersonél allweddol o fewn y sefydliad.

Sefydlu amserlen o weithgareddau sy'n seiliedig ar risg ac sy'n edrych i'r dyfodol i gefnogi gwelliannau ym mherfformiad yr heddlu		Nod y SCHTh yw drafftio argymhellion a sylwadau'r panel o fewn deg diwrnod gwaith i'r cyfarfod. Yna mae'r adroddiadau'n cael eu dosbarthu i'r rhai sy'n bresennol ar gyfer sylwadau cyn iddynt gael eu hanfon at yr heddlu ar gyfer eu harsylwadau. Mae'r SCHTh yn cysylltu â'r adran berthnasol o fewn yr heddlu er mwyn cael ymateb i'r argymhellion a'r sylwadau a godwyd gan y paneli craffu. Ar ôl ei gymeradwyo, caiff yr adroddiad terfynol ei gyfieithu a'i gyhoeddi ar wefan SCHTh.
Sicrhau bod barn y cyhoedd yn cael ei chynrychioli yng ngwaith craffu'r CHTh		Parhaodd y craffu drwy'r Panel Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys a'r gwirfoddolwyr ar y Panel Sicrhau Ansawdd a'r Panel Craffu ar Arolygu Dalfeydd. Adolygodd y Panel Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys achosion o droseddau cylllell. Edrychwyd ar 12 achos i gyd, chwe oedolyn a chwe unigolyn ifanc. Roedd argymhellion a chanfyddiadau'r panel yn cynnwys; sicrhau bod y polisi Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys yn cael ei ddilyn a'i gynnwys mewn unrhyw ddogfennau, a sicrhau bod dull cyson o gyhoeddi datrysiadau y tu allan i'r llys ledled Dyfed Powys. Cynhaliwyd un cyfarfod Panel Sicrhau Ansawdd ym mis Ionawr a oedd yn canolbwyntio ar ein gwasanaeth a gomisiynwyd Llwybrau Newydd ac ym mis Mawrth lle adolygodd y panel ddigwyddiadau stopio a chwilio. Ar gyfer cyfarfod mis Ionawr, gofynnwyd i'r panel adolygu detholiad o atgyfeiriadau yn ymwneud ag oedolion a phobl ifanc i wasanaeth Llwybrau Newydd, ac adolygwyd pedwar achos i gyd. Ar gyfer cyfarfod mis Mawrth gofynnwyd i'r panel adolygu fideo camera corff o oedolion a phobl ifanc, adolygwyd wyth achos i gyd. Cyfarfu'r Panel Craffu ar Arolygu Dalfeydd ym mis Chwefror i adolygu achosion grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn y ddalfa. Daeth y pwnc hwn o ganlyniad i rywfaint o anghymesuredd data ar gyfer noeth-chwiliadau yn y ddalfa. Adolygwyd 30 o achosion

gan y panel gyda rhai sylwadau allweddol yn cynnwys:

- Roedd anawsterau sy'n gysylltiedig â chael cyfieithydd ar gyfer rhai ieithoedd yn golygu bod cynrychiolaeth gyfreithiol wedi'i gohirio ac mewn un achos, cafodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei ryddhau ar fechnïaeth nes y gellid dod o hyd i un.
- Er mai dim ond un achos allan o'r 30 a oedd yn cyfeirio at unigolyn ifanc a gedwir yn y ddalfa, ni chofnodwyd y rhestr wirio yn y ddalfa, llais y plentyn na'r eiliadau cyraeddadwy ar gyfer y cofnod dalfa hwn.
- O'r chwe chofnod a gofnodwyd fel menywod, nid oedd gan bedwar unrhyw fanylion yn nodi a oedd swyddog benywaidd wedi cyflwyno ei hun.
- O'r 30 o gofnodion, darparwyd ar gyfer eitemau crefyddol 17 o unigolion a gedwir yn y ddalfa (57%). Er bod hyn wedi gwella, roedd 10 cofnod heb unrhyw fanylion wedi'u cofnodi mewn perthynas ag eitemau crefyddol.
- Bylchau yn y darpariaethau a ddarperir i unigolion a gedwir yn y ddalfa - Er bod 87% o unigolion a gedwir yn y ddalfa wedi cael cynnig bwyd a lluniaeth, roedd tri chofnod cadw lle nad oedd hyn wedi'i gofnodi ac mewn un achos nid oedd unrhyw dystiolaeth bod bwyd na diod wedi'i gynnig i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn ystod ei gyfnod yn y ddalfa. Yn ogystal, roedd bylchau yn y cyfarwyddiadau i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa fod yr ardal doiled wedi'i chuddio gan lun picseleiddiedig, cyfarwyddiadau i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa am gloch y gell a gofynion dietegol.

Gwasanaethau cynorthwyol

		Dim ond 50% o unigolion a gedwir yn y ddalfa a gafodd gynnig gwasanaethau cymorth o'i gymharu â 33% na chafodd gynnig a 17% nad oedd hyn yn berthnasol iddynt. Roedd pump o'r 30 o gofnodion y ddalfa a archwiliwyd yn awgrymu nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod cysylltiad wedi'i wneud â gwasanaethau cymorth neu iechyd meddwl yn ystod cyfnod yr unigolion a gedwir yn y ddalfa.
Goruchwylio a gweithredu argymhellion arolygiaeth allanol		Dim ond un adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi a gyhoeddwyd y chwarter hwn, ar 27 Mawrth 2025, disgwylir ymateb y CHTh erbyn 22 Mai 2025.

17c) Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff yr heddlu

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Datblygu fframwaith a strwythur perfformiad sy'n caniatáu gwell dealltwriaeth o ganlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddu		Mae fframwaith perfformiad manwl wedi'i ddatblygu i ddangos tystiolaeth o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yn y cynllun. Y Bwrdd Perfformiad Strategol ar 30 Ebrill 2025 fydd y tro cyntaf i Heddlu Dyfed-Powys a SCHTh adrodd yn erbyn fframwaith perfformiad y Cynllun Heddlu a Throseddu newydd, gyda ffocws ar flaenoriaeth 1: Cefnogi dioddefwyr ac atal erledigaeth.
Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol ar waith i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff		Mae'r Bwrdd Perfformiad Strategol yn rhoi cyfle i'r CHTh ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad yr heddlu. Y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 30 Ebrill 2025 fydd y tro cyntaf i Heddlu Dyfed-Powys a'r SCHTh adrodd yn erbyn fframwaith perfformiad y Cynllun Heddlu a Throseddu newydd, gyda ffocws ar flaenoriaeth 1: Cefnogi dioddefwyr ac atal erledigaeth.
Adolygiad Datblygiad Proffesiynol y Prif Gwnstabl		Cyfarfu'r CHTh a'r Prif Gwnstabl ar 7 Hydref 2024 i drafod perfformiad y Prif Gwnstabl a'i ffocws ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Derbyniwyd adroddiad gan y CHTh ym mis Rhagfyr 2024 yn manylu ar

		dystiolaeth yn ymwneud â pherfformiad y Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r amcanion a osodwyd wrth ei benodi. Bydd amcanion newydd ar gyfer y Prif Gwnstabl, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau newydd y Cynllun Heddlu a Throseddu, yn cael eu gosod maes o law.
--	--	---

17d) Penderfynu ar y gyllideb, gan ddyrannu asedau ac arian i'r Prif Gwnstabl; a gosod y praesept ar gyfer ardal yr heddlu

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Hysbysu penderfyniad CHTh mewn perthynas â'r praesept		Cafodd y praesept ar gyfer 2025/2026 ei ystyried gan y Panel Heddlu a Throseddu ym mis Ionawr 2025 ac fe'i cefnogwyd yn unfrydol. Roedd hyn yn benllanw gwaith manwl a wnaed drwy gydol 2024/2025 gan gynnwys trafodaethau â'r Panel Heddlu a Throseddu a chyfarfodydd dilynol ag Is-grŵp Praesept y Panel Heddlu a Throseddu. Bydd gwaith yn parhau yn ystod 2025/2026 ar y praesept ar gyfer 2026/2027.
Pennu cynllun ariannol tymor canolig		Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025/26-2029/30 wedi'i gyhoeddi a bydd gwaith yn dechrau ym mis Gorffennaf i ddatblygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2026/27.
Ariannu rhaglen gyfalaf i ddarparu asedau priodol i'r heddlu er mwyn iddynt ddarparu gwasanaethau plismona effeithiol		Mae'r rhaglen gyfalaf wedi'i diwygio i adlewyrchu'r gofynion ar yr heddlu ac wedi'i dogfennu yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae gwaith manwl wedi parhau i ddatblygu ymhellach y rhaglen gyfalaf tymor hwy (deg mlynedd) sy'n rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, y Strategaeth Gyfalaf a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Ystyriwyd y cynllun Ariannol Tymor Canolig gan y Panel Heddlu a Throseddu a chafodd ei gefnogi gan yr aelodau.

17e) Penodi'r Prif Gwnstabl

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Penodi Prif Gwnstabl		Penodwyd y Prif Gwnstabl ym mis Rhagfyr 2021.

17f) Cael gwared ar y Prif Gwnstabl

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Dilyn y broses a nodir yn rhan 2 o atodlen 8 o ddeddf 2011 (Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011) a rheoliadau a wnaed o dan adran 50 o Ddeddf yr Heddlu 1996(a)	Amherthnasol	Amherthnasol

17g) Cynnal heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer ardal yr heddlu

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Sicrhau y darperir gwerth am arian		Mae cyfrifoldebau a threfniadau ar gyfer ymdrechu i gyflawni gwerth am arian wedi'u hymgorffori drwy gydol y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ac mae archwilio mewnol ac allanol yn ceisio sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd y CHTH a'r Prif Gwnstabl o adnoddau, ac mae'r Bwrdd Cyllid a Strategaeth yn goruchwylio'r trefniadau. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn parhau i gymryd rhan mewn nifer o gyfarfodydd llywodraethu'r heddlu sy'n ystyried agweddau ar werth am arian yn rheolaidd ac adroddir ar gynnydd trefniadau i'r

		Bwrdd Plismona a'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn rheolaidd. Mae templedi achosion busnes wedi'u safoni i gynnwys buddion i gefnogi craffu a'r byrddau priodol.
Cydymffurfiaeth statudol ystadau gan sicrhau eu bod yn addas at y diben ar gyfer defnydd gweithredol		Mae'r tîm ystadau a'r tîm iechyd a diogelwch yn parhau i gynnal asesiadau misol strwythuredig ar y cyd o gydymffurfiaeth statudol gan sicrhau bod safonau cydymffurfio uchel. Mae hwn yn fecanwaith annibynnol sy'n parhau i ddarparu adroddiadau ar gydymffurfiaeth i lywodraethu cyfarfodydd Grŵp Ystadau Gweithredol/Grŵp Ystadau Strategol a'r Bwrdd Iechyd a Diogelwch. Mae monitro misol da yn parhau, gyda gostyngiad bach oherwydd profion dyfeisiadau cludadwy a phrofion a chynnal a chadw wedi'u cynllunio ar gyfer offer aerdymheru. Mae gan y ddau gamau lliniaru cadarn a chynlluniau cywirol ar waith ar gyfer unrhyw gamau adfer a nodwyd cyn cau, nid oes angen uwchgyfeirio ac mae darpariaeth gwasanaeth yn cael ei rheoli mewn modd strwythuredig a systematig.
Archwilio cyfleoedd i leihau effaith amgylcheddol		Grŵp Llywio Cynaliadwyedd Mae'r Grŵp Llywio Cynaliadwyedd yn dod yn fwrdd, gyda'r cylch gorchwyl i'w gytuno yn ei gyfarfod nesaf. Bydd y Grŵp Ystadau Strategol a'r Grŵp Rheoli Fflyd Strategol yn adrodd i'r bwrdd hwn yn ogystal â'r Gweithgor Cynaliadwyedd sydd newydd ei ffurfio. Mae aelodau'r Gweithgor Cynaliadwyedd yn cynnwys arweinwyr yr adrannau a'u hyrwyddwyr cynaliadwyedd, a fydd yn gyfrifol am ddatblygu ac adrodd ar gynnydd y tair dogfen cynaliadwyedd (dogfennau Mantolen Carbon Blynnyddol, Adroddiad Asesiad Hunan-dystiolaeth, Traciwr Cynllun Gweithredu Addasu a Datgarboneiddio) fel yr amlinellir yn y Strategaeth Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio. Archwiliad TIAA Cymru Gyfan Mae'r archwiliad wedi'i gwblhau a dyfarnwyd dyfarniad Rhesymol i Heddlu Dyfed-Powys. Gosodwyd tri cham gweithredu pwysig, chwe arferol a dau gweithredol i ni, ac rydym yn

gweithio tuag atynt. Gellir gweld gwaith yn erbyn y rhain yn ein canlyniadau allweddol y gellir eu cyflawni a'n pwyntiau ffocws allweddol isod.

Mae canlyniadau allweddol y cyfnod diwethaf yn cynnwys:

- Mae'r strategaeth Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio wedi'i chyhoeddi.
- Cytunwyd ar lywodraethu ac atebolrwydd cydlynol ledled yr heddlu a sefydlwyd Gweithgor Cynaliadwyedd a fydd yn adrodd i'r Bwrdd Llywio Cynaliadwyedd.
- Mae cost datgarboneiddio wedi'i hychwanegu at y olrhainwyr datgarboneiddio.
- Mae cynllun cyfathrebu cynaliadwyedd strwythuredig wedi'i weithredu.
- Mae'r rhaglen hyrwyddwyr cynaliadwyedd yn recriwtio hyrwyddwyr cynaliadwyedd ar draws timau ac adrannau.
- Mae prosiect goleuadau LED y Drenwydd wedi'i gwblhau yn ystod y cyfnod gan ddarparu perfformiad ynni a lefelau goleuo gwell ar draws yr adeilad
- Mae prosiect mannau gwefru cerbydau trydanol wedi cwblhau gosodiadau ym Mhorth Tywyn, Hwlfordd, ac Aberteifi yn ystod y cyfnod, mae hyn yn ychwanegol at unedau gwefru canfod namau gweithdai yr unedau cynnal a chadw cerbydau yn y Pencadlys, Aberystwyth, Hwlfordd a'r Drenwydd a osodwyd yn ystod y flwyddyn.
- Mae goleuadau LED sy'n canfod presenoldeb wedi'u gosod drwy brif orsaf Aberteifi gan ein tîm mewnol, a fydd yn lleihau'r ôl troed carbon ac yn defnyddio llai o ynni

Y ffocws allweddol ar gyfer y cyfnod nesaf yw:

- Cwblhau'r gwaith o ganfod data sylfaenol a'u rhannu mewn Dogfennau Mantolen Carbon Blynnyddol â'r Gweithgor Cynaliadwyedd.
- Gwneud cais am gyfleoedd ariannu cynaliadwyedd a datgarboneiddio addas sydd ar gael.
- Datblygu adnoddau a gwneud cais i ddod yn hyfforddwr Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol (IEMA) yn unol â'r cynllun hyfforddi cynaliadwyedd tair haen fel yr amlinellir yn y Strategaeth Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio.
- Datblygu a chyhoeddi Cynllun Teithio Cynaliadwy Heddlu Dyfed-Powys
- Arweinwyr adrannol i gwblhau Adroddiad Asesiad Hunan-dystiolaeth Cynaliadwyedd.
- Cwblhau Olrheinwyr Cynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio Addasadwy adrannol i roi amcangyfrif o gost cyflawni cam un o ddatgarboneiddio'r heddlu.
- Bydd system wresogi newydd dalfa'r Drenwydd yn drydan yn unig ac mae bron â'i chwblhau
- Mae prosiect fferm solar y Pencadlys yn mynd rhagddo gyda'r cyfnod cynllunio a dylunio/tendro. Rhagwelir gwaith safle rhwng Rhagfyr 2025 a diwedd Mawrth 2026 gydag asesiadau ecoleg y safle, dyluniad terfynol ac ymgynghoriad statudol cynllunio yn brif ffocws yn y cyfnod nesaf.
- Rhaeadr Gwy (LED/gwresogi a thrydan) - Dylunio ar y gweill. Gwaith safle wedi'i drefnu ar gyfer 30 Mai 2025 i 26 Mehefin 2025
- Gwelliannau Effeithlonrwydd Ynni Adeiladau - Ar hyn o bryd yn y cyfnod tendr ar gyfer darparu rheolyddion gwresogi helaeth a mesuriadau amgylcheddol ar draws sawl safle i leihau'r galw a'r ôl troed carbon. Gwaith safle wedi'i drefnu ar gyfer 5 Mai 2025 i 6 Mehefin 2025 ar hyn o bryd
- Cydweithio â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar chwe safle a

		fydd yn golygu ein bod yn lleihau ein hól troed carbon yn sylweddol yn y trefi hyn ac yn rhannu'r ôl troed carbon â'r gwasanaeth tân ar gyfer y lleoliadau hyn. Bydd yr hen orsafoedd heddlu aneffeithlon a gynhesir gan olew a nwy yn cael eu gwerthu maes o law. • Mae canolfannau newydd wedi'u gwresogi gan drydan yn unig yn Noc Penfro ac Abergwaun yn y cyfnod cynllunio newid defnydd. Os caiff eu cymeradwyo bydd hyn yn lleihau ein hól troed carbon yn y canolfannau hyn ac yn lleihau'n sylweddol y lefelau defnydd presennol.
Archwilio a gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu allanol		Cafwyd anfonebau a gwerthoedd cronriadol ar gyfer chwarter 4 ar draws pob un o dair cronfa grant allanol y Swyddfa Gartref y mae'r swyddfa hon yn eu derbyn – Strydoedd Saffach 5, Dyletswydd Trais Difrifol a chyllid Ardaloedd â Phroblemau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i gasglu'r diweddariad ar gynnydd yn barod ar gyfer y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd hawliadau o 14 Ebrill ymlaen. Er bod rhywfaint o danwariant wedi'i nodi, mae'r rhan fwyaf o'r gweithgaredd disgwylidig wedi'i gyflawni yn unol â'r cynigion gwreiddiol. Mae partneriaid naill ai wedi llwyddo i sicrhau costau is a/neu mae amgylchiadau esgusodol y tu hwnt i'w rheolaeth wedi atal cyflawni – mae diweddariadau rheolaidd wedi'u darparu mewn cyfarfodydd bwrdd misol ac mae risgiau wedi'u lliniaru cymaint â phosibl. Cadarnhaodd y Swyddfa Gartref yn ystod chwarter 4 na fydd y rhaglen Strydoedd Saffach yn parhau i 2025/26. Diweddarwyd yr holl bartneriaid a chynhaliwyd cyfarfod terfynol y bwrdd ar 30 Mawrth. Mae cronfeydd canlynol y Swyddfa Gartref yn parhau yn 2025/26:

		Cronfa Ardaloedd â Phroblemau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - £1miliwn Cronfa Dyletswydd Trais Difrifol - £188,696.97 Mae ceisiadau wedi'u cyflwyno i'r Swyddfa Gartref – disgwylir cael contractau grant dros yr wythnosau nesaf.
Archwilio a gwneud y mwyaf o gyfleoedd menter noddi		Mae SCHTh yn parhau i weithredu fel aelod o Fwrdd Cronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer cynghorau Ceredigion a Sir Gaerfyrddin ac yn cyfrannu at drafodaethau ynghylch cyllid cymunedol i wella'r rhanbarth. Cyhoeddwyd cyllid pellach ar gyfer 2025/26 drwy'r adran Ffyniant Bro. Byddwn yn ceisio cefnogi a chydweithio â Sir Benfro a Phowys gyda'r gweithgaredd hwn o ddechrau 2025/26 ymlaen. Mae gwaith yn parhau i geisio cymorth gan ffynonellau cyllid eraill i ychwanegu at ein cyfeiriadur cyswllt i'w rannu ag ymgeiswyr am gyllid nad ydynt yn bodloni amodau ariannu CHTh. Mae hyn yn galluogi ymgeiswyr am gyllid i geisio cyllid o ystod mor eang â phosibl o ffynonellau. Mae cyllid o ffynonellau eraill wedi cael ei rannu â phartneriaid a rhwydweithiau yn ystod chwarter 4. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd ariannu lle nad yw SCHTh yn gymwys i wneud cais ond a allai fod o fudd i grwpiau cymunedol. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda phartneriaid i archwilio gweithgaredd cydweithredol i gefnogi grwpiau cymunedol gyda chyllid a/neu gefnogaeth i ddatblygu eu sefydliadau. Yn dilyn llwyddiant y cyfarfod hwn, mae gwaith pellach i chwilio am gyfleoedd gyda sefydliadau ariannol eraill wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau 2025/26.
Gweithredu a chynnal cofrestr risg i nodi a lliniaru risgiau i SCHTh a'r heddlu		Mae risgiau'n parhau i gael eu hadrodd i'r Cyd-bwyllgor Archwilio bob chwarter ac i'r Uwch-dîm Rheoli bob pythefnos. Mae deialog yn parhau gyda chynrychiolwyr yr heddlu sy'n gyfrifol am

		risg i sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf wedi'i chynnwys ar y cofrestrau risg. Yn ystod chwarter 4, mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi herio TIAA, yr archwilwyr mewnol, i sicrhau eu bod yn ystyried y cofrestrau risg corfforaethol a risgiau penodol wrth gynnal adolygiadau.
Defnyddio cynlluniau hyfforddi a datblygu ar gyfer holl staff SCHTh		Mae staff yn parhau i ddefnyddio cyfleoedd hyfforddi priodol a pherthnasol sydd wedi'u nodi trwy gynlluniau hyfforddi. Mae gwaith wedi'i wneud yn fewnol mewn perthynas ag anghenion hyfforddi er mwyn bwydo i'r gofynion gosod cyllideb ar gyfer 2025/26

17h) Ymrwymo i gytundebau cydweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau eraill, cyrff plismona a phartneriaid eraill

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Archwilio cyfleoedd cydweithio yn unol â'r Weledigaeth ar gyfer Plismona yng Nghymru		Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Bwrdd Goruchwyllo Cydweithrediadau'r Heddlu, Comisiynwyr Heddlu a Throseddau ym mis Ionawr 2025, sy'n rhoi cyfle i graffu a goruchwyllo ar y cyd ar berfformiad cydweithrediadau sy'n effeithio ar heddluoedd yng Nghymru a chyfle i archwilio cyfleoedd yn unol â'r Weledigaeth ar gyfer Plismona yng Nghymru. Mae pob un o'r pedwar CHTh wedi cytuno i gynnwys datganiad gweledigaeth a rennir yn eu Cynlluniau Heddlu a Throseddau unigol lle maent yn ymrwymo i weithio'n gydlynol i archwilio cyfleoedd i wella plismona yng Nghymru.
Archwilio cyfleoedd cydweithio gyda phartneriaid eraill		Lansiwyd y Fforwm/Grŵp Cyllido a Phrosiectau mewn cydweithrediad â'r heddlu ym mis Medi 2024. Mae cyfarfodydd misol yn mynd rhagddynt yn dda gydag arweinwyr trawsadrannol yn cydweithio i ddeall safbwyntiau ac anghenion yn well i gefnogi datblygu cynigion i gyrraedd y safonau disgwylidig. Mae prosiectau a chynigion ariannu a ddaw i law yn cael eu cyfeirio'n gyflym i'r llwybr

		priodol, gyda chynghor ac arweiniad yn cael eu darparu i symud ymlaen yn briodol. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr NatWest i archwilio gweithgaredd cydweithredol i gefnogi grwpiau cymunedol gyda chyllid a/neu gefnogaeth i ddatblygu eu sefydliadau. Yn dilyn llwyddiant y cyfarfod hwn, mae gwaith pellach i chwilio am gyfleoedd gyda sefydliadau ariannol eraill wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau 2025/26. Cynhaliwyd cyfarfodydd pellach gyda phartneriaeth Chwaraeon Gorllewin Cymru a rhannwyd eu gwybodaeth ar draws y rhwydwaith. Bydd y berthynas hon yn datblygu ymhellach yn 2025/26 gan gynnwys partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru newydd ei ffurfio a sefydlwyd ym mis Ionawr 2025.
Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol ar waith i graffu ar gytundebau cydweithio		Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Bwrdd Goruchwyllo Cydweithrediadau'r Heddlu Comisiynwyr Heddlu a Throseddau ym mis Ionawr 2025, sy'n rhoi cyfle i graffu a goruchwyllo ar y cyd berfformiad cydweithrediadau sy'n effeithio ar heddluoedd yng Nghymru. Bydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod cydweithrediadau'n darparu gwerth am arian a buddion amlwg i bobl Cymru, gan weithio i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Plismona yng Nghymru.

17i) Darparu cyswllt lleol rhwng yr heddlu a chymunedau, gan weithio i roi dymuniadau a dyheadau dilys y cyhoedd ar waith

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Gweithio gyda'r heddlu i ddatblygu a gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd; bodloni'r amcanion ynddo		Diweddariad Cynllun Cydraddoldeb Strategol Byddwn yn gweithio ar adroddiad cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd yn chwarter 1 2025-26.
Datblygu a gweithredu Strategaeth Ymgysylltu a		Diwrnodau a Digwyddiadau Ymgysylltu â'r Gymuned

Chyfathrebu SCHTh a'i chynllun gweithredu, a pholisi a strategaeth cyfryngau cymdeithasol yn ymgorffori darparu cyfleoedd i gymunedau lleol lywio a dylanwadu ar benderfyniadau a hyrwyddo gwaith y CHTh a'r Prif Gwnstabl yn rhagweithiol.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu a mynychwyd hwy gan gynrychiolwyr y CHTh a'r CHTh yn ystod chwarter 4. Ym mis Ionawr, ymwelodd â Choleg Sir Benfro i gyfarfod â dysgwyr yn ystod eu hwythnos ffocws. Roedd yn gyfle iddyn nhw ofyn unrhyw gwestiynau oedd ganddynt i'r CHTh mewn perthynas â'i rôl fel Comisiynydd Heddlu a Throseddau. Cyfarfu hefyd ag un o Lysgenhadon Ieuenctid SCHTh, sydd hefyd yn ddysgwr yn y coleg, ynghyd â'i gyfoedion yng Nghabinet y Dysgwyr. Roedd y dysgwyr yn gallu siarad yn agored ac yn onest â'r CHTh, gan fynegi eu pryderon a chodi materion yr oeddent yn teimlo bod angen eu dwyn i'w sylw. Gofynnodd y CHTh iddynt feddwl am ffyrdd y gellid gwella'r materion hyn yn y coleg o safbwynt plismona ac yna gallai ein Llysgennad Ieuenctid, yn cynrychioli ei grŵp cyfoedion, fwydo'r syniadau hyn yn ôl atom. Cyfarfu'r comisiynydd hefyd â Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) lleol a hwylusodd gyfarfod â gweithwyr allgymorth ieuenctid Aberdaugleddau, a ariennir gan fenter Strydoedd Saffach y Swyddfa Gartref, yn ogystal â swyddogion tai o Gyngor Sir Penfro.

Cynhaliwyd diwrnod ymgysylltu â'r gymuned ym mis Chwefror yn Sir Gaerfyrddin, lle cyfarfu'r CHTh â thîm plismona ac atal bro Caerfyrddin, gan drafod materion lleol a phryderon gweithredol ar yr adeg honno. Yna gofynnwyd iddo fynychu cyfweiliad gan Barod Media, tîm gwneud ffilmiau masnachol sy'n rhan o fenter Rhoi Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin, elusen annibynnol sy'n hyrwyddo eiriolaeth, cefnogaeth a hyfforddiant annibynnol i oedolion ag anableddau dysgu. Roedd y cyfweiliad hwn yn seiliedig ar droseddau casineb, lle gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r comisiynydd yn ymwneud â'r math hwn o drosedd. Yn ddiweddarach yn y dydd cynhaliodd ddiwrnod agored yn y Pencadlys ar gyfer menter Premier League Kicks, lle mynychodd rhai pobl ifanc i gyfarfod ag adrannau gwahanol yr heddlu fel Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu, a'r adrannau Cyfleoedd Gyrfa a Chyflogadwyedd. Mynychodd

tri o'n Llysgenhadon Ieuenctid hefyd er mwyn rhoi mewnbwn byr ar y cynllun Llysgenhadon Ieuenctid, gan esbonio eu rolau a'r gwahanol brosiectau y maent wedi gweithio arnynt dros y misoedd diwethaf. Nod yr ymgysylltiad hwn oedd rhoi cipolwg i bobl ifanc PL Kicks o'r gwahanol lwybrau gyrfa y gellir eu dilyn wrth ymuno â'r heddlu.

Cynhaliwyd ail gyfarfod cyhoeddus a chymhorthfa gymunedol yn ystod digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned mis Mawrth, y tro hwn yn Aberhonddu. Yn gyntaf, cyfarfu'r CHTH â grŵp Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill Colegau NPTC, ynghyd â dau o swyddogion tîm plismona ac atal bro Aberhonddu. Pwrpas yr ymweliad hwn oedd egluro rôl comisiynydd, a chasglu meddyliau a barn y dysgwyr ar fyw yn y gymuned, gan ofyn pa mor ddiogel maen nhw'n teimlo yn Aberhonddu ac a oes unrhyw bryderon lleol y maen nhw'n teimlo y mae angen mynd i'r afael â nhw. Roedd hefyd yn ffordd wych i'r dysgwyr gyfarfod â'u swyddogion heddlu lleol, ac i ddysgu'r ffordd orau o gysylltu â'r heddlu pe bai byth angen y gwasanaeth. Gan nad oedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn y grŵp yn siarad Saesneg yn rhugl, esboniwyd iddynt y gallent roi gwybod ar-lein, neu ddefnyddio llinell iaith lle bydd cyfieithydd yn gallu eu cynorthwyo i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau. Cyfarfu'r CHTH hefyd â rhai aelodau tîm Pobl, i ddeall y problemau y maen nhw'n eu hwynebu ar hyn o bryd ym Mhowys. Mynegasant pa mor dda y mae'r timau plismona ac atal bro yn cydweithio â nhw, a gymaint maen nhw'n eu gwerthfawrogi yn y dref.

Roedd prynhawn y diwrnod ymgysylltu yn cynnwys cyfarfod â Chyngor Ysgol Uwchradd Crughywel, lle cyfarfu'r CHTH â grŵp o bobl ifanc i drafod eu gwaith, materion lleol a ffyrdd y gallwn gydweithio â nhw yn y dyfodol. Yna cyfarfu â chynghorwyr tref lleol Crughywel, ynghyd â chynrychiolwyr uwch swyddogion o Heddlu Dyfed-Powys i drafod y newyddion a gafwyd yn ddiweddar am gau gorsafoedd heddlu a sut y

bydd hyn yn effeithio ar y gymuned leol. Daeth y diwrnod i ben gyda chyfarfod cyhoeddus yn Neuadd y Dref Aberhonddu, lle roedd yn gyfle i aelodau'r cyhoedd fynychu i siarad â chynrychiolwyr y CHTH a Heddlu Dyfed-Powys, i ofyn cwestiynau neu fynd i'r afael â phryderon lleol.

Crynodeb o'r Fforwm Ymgysylltu Ieuenctid

Mae'r Llysghenhadon Ieuenctid wedi cymryd rhan mewn sawl ymrwymiad gwahanol dros y misoedd diwethaf. Fe'u gwahoddwyd i fynychu'r Pencadlys i roi mewnbwn i ymwelwyr o fenter Premier League Kicks, gan egluro eu rolau a'u cyfrifoldebau fel llysghenhadon, a manylu ar yr ystod o brosiectau y maent wedi bod yn rhan ohonynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roeddent yn frwdfrydig am eu rolau a hyrwyddasant y cynllun i ymwelwyr ifanc eraill, gan ymgysylltu â nhw ac ateb unrhyw gwestiynau oedd ganddynt.

Maent hefyd wedi bod yn rhan o'u Panel Craffu Ieuenctid cyntaf gyda'r Prif Arolygydd Shaun Bowen, yn dilyn eu sgwrs gychwynnol yn chwarter 3. Arweiniodd y Rhingyll David Hawksworth y sesiwn gyntaf ym mis Chwefror, lle roedd yn rhaid i'r llysghenhadon roi adborth ar ddigwyddiadau stopio a chwilio a defnyddio grym o fideo camera corff gan swyddogion Heddlu Dyfed-Powys. Roedd hon yn sesiwn wych gyda'r Rhingyll Hawksworth yn canmol y Llysghenhadon am eu parodrwydd a'u brwdfrydedd i ddysgu mwy.

Gofynnwyd i'r Llysghenhadon Ieuenctid hefyd a fyddent â diddordeb mewn mynychu Gweithdy Stelcio a Phobl Ifanc yng Nghymru. Cais oedd hwn gan Brifysgol De Cymru, Gwasanaethau Trais Domestig Calan a Heddlu De Cymru, a oedd yn awyddus i siarad â phobl ifanc yng Nghymru rhwng 16 a 24 oed am eu barn a'u dealltwriaeth o stelcio ym mhob math o berthynas.

Maent hefyd wedi cael gwahoddiad i ddod yn aelod o Bwyllgor Dethol newydd SCHTh, lle byddant yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif, ynghyd â phartneriaid, darparwyr a rhanddeiliaid allweddol i ddarparu tystiolaeth a gwybodaeth sy'n cyfrannu at y broses graffu ac i ddangos eu bod yn darparu gwasanaethau ategol. Mae sawl datganiad o ddiddordeb wedi dod i law ac rydym yn y broses o baratoi ar gyfer y cyfarfod cyntaf a gynhelir ym mis Mai.

Mae'r Llysgenhadon Ieuenctid hefyd yn rhan o'r gwaith o helpu gyda'r Diwrnod Agored Ieuenctid sydd ar ddod yn y Pencadlys, a gynhelir gan y CHTh. Nod y digwyddiad hwn yw i bobl ifanc o'r chweched dosbarth a hŷn gael dealltwriaeth ddyfnach o weithrediadau dyddiol yr heddlu, wrth ddysgu am y gwahanol gyfleoedd gyrfa sydd ar gael.

Y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr

Mae'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr ar fin mynd trwy ymgyrch recriwtio, lle rydym yn chwilio am fwy o aelodau i rannu eu profiadau a'u teithiau yn y system cyfiawnder troseddol â ni. Rydym hefyd yn ystyried newid enw'r fforwm, gan fod adborth o sesiwn ddiweddar Grŵp Profiad Bywyd Llwybrau Newydd ym mis Ionawr wedi awgrymu bod y term dioddefwr yn gwneud i unigolion deimlo'n agored i niwed ac yn wan. Fe gynigion nhw ddefnyddio'r term "goroeswr" sy'n cynrychioli cryfder a goresgyn caledi. Penderfynwyd y bydd arolwg yn cael ei ddosbarthu'n fuan i holl aelodau'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn holi eu meddyliau a'u barn ar hyn, gan eu hannog i rannu eu syniadau ar enwau eraill i'r fforwm.

Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud mewn perthynas â rhwydwaith eiriolwyr dioddefwyr-goroeswyr newydd, a fydd yn estyniad i'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, gan ymgysylltu hefyd â phartneriaid a defnyddwyr gwasanaeth. Mae'n debyg y bydd hyn yn dechrau'r chwarter nesaf ar

ôl i'r ymgyrch recriwtio ddigwydd a phenderfynu ar enw newydd i'r fforwm.

Cynhadledd Dydd Gŵyl Dewi

Ar 4 Mawrth, cynhaliwyd y 9fed Gynhadledd Dydd Gŵyl Dewi, gyda chynhadledd eleni yn canolbwyntio ar Blismona sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth, gan ddod ag arbenigwyr a gweithwyr proffesiynol ynghyd i drafod yr ymchwil ddiweddaraf a'r arferion gorau mewn plismona.

Canolbwyntiodd y gynhadledd, sydd wedi dod yn ddigwyddiad allweddol yng nghalendr plismona, ar strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella diogelwch y cyhoedd ac effeithiolrwydd plismona. Clywodd y mynychwyr gan academyddion, ymarferwyr a llunwyr polisïau blaenllaw, a fu'n rhannu mewnwelediadau am ddulliau arloesol o atal troseddu, ymgysylltu â'r gymuned a gorfodi'r gyfraith.

Gyda dros 100 o unigolion yn mynychu wyneb yn wyneb, a niferoedd pellach yn ymuno ar-lein, roedd agenda'r gynhadledd yn cwmpasu ystod o bynciau hollbwysig, yn ogystal â thynnu sylw at y cyfleoedd a'r heriau wrth fabwysiadu plismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Y Cynllun Heddlu a Throseddu

Ar 13 Chwefror, cynhaliom ddigwyddiad gyda rhanddeiliaid allweddol ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin i lansio'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd ar gyfer 2025-2029. Rhoddodd y digwyddiad gyfle i amlinellu'r blaenoriaethau a fydd yn llywio gwaith y comisiynydd dros y pum mlynedd nesaf ac archwilio sut y gall ymdrechion cydweithredol helpu i gyflawni nodau'r cynllun. Roedd dros 60 o unigolion yn bresennol yn y digwyddiad, gyda'r trafodaethau'n canolbwyntio ar gryfhau partneriaethau a sicrhau dull cydgysylltiedig o fynd i'r afael â throseddu, cefnogi dioddefwyr, a sicrhau cyfiawnder ledled Dyfed-Powys.

		Mae'r cynllun ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan, ynghyd â phedwar fideo byr sydd wedi'u cynhyrchu i roi trosolwg o'r cynllun a'i flaenoriaethau. Praesept Yn dilyn cadarnhau praesept yr heddlu ar gyfer 2025-26 yn dilyn cyfarfod o'r Panel Heddlu a Throseddau ym mis Ionawr, rydym wedi bod yn cysylltu â'r pedwar awdurdod lleol i sicrhau bod manylion y praesept wedi'u cynnwys yn hysbysiadau'r dreth gyngor a gyflwynir i drigolion a busnesau. Rydym bellach wedi cyhoeddi taflen hysbysiad praesept sydd ar gael i'w lawrlwytho ar ein gwefan, sy'n egluro sut mae'r heddlu'n bwriadu gwario eu cyllideb ar gyfer 2025-26, a ble bydd y cyllid ychwanegol a godir drwy'r praesept yn cael ei wario. Mae hyn hefyd wedi cael ei rannu'n ehangach â rhanddeiliaid ac ar gyfryngau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y manylion yn hygyrch i bawb.
Ymateb i bryderon cymunedol mewn modd amserol		Yn ystod y cyfnod hwn roedd dau wrandawriad camymddwyn carlam ac un gwrandawriad camymddwyn yn dal i fynd rhagddo. Bu cynnydd mewn gohebiaeth yn ymwneud â "phryderon ynghylch ystâd yr heddlu" a oedd yn ymwneud â chau gorsaf heddlu yng Nghrucywel ac yn Sir Benfro. Roedd 23% o ohebiaeth yn ymwneud â materion yr Adran Safonau Proffesiynol a fyddai'n ymwneud â chwynion parhaus neu gais i wneud cwyn newydd. Roedd 10.2% o'r ohebiaeth yn bryderon mewn perthynas ag amseroldeb ymatebion i wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Pan gafwyd gohebiaeth cawsant eu cyfeirio at yr adran fetio i gael yr wybodaeth ddiweddaraf/ymateb. Mae'r cynnydd mewn pryderon wedi'i ychwanegu at gynllun gwaith sicrwydd SCHTh ar gyfer monitro.

Annog preswylwyr i gyfrannu at weithgarwch sicrwydd a chraffu		Yn ystod y chwarter hwn, roedd un Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa yn aros am ei fetio. Ar gyfer y Cynllun Lles Anifeiliaid roedd pump gwirfoddolwr newydd yn destun gwiriad ar hyn o bryd. Derbyniodd un aelod newydd y Panel Sicrhau Ansawdd ei hyfforddiant cynefino. Daeth ceisiadau ar gyfer y cynllun Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa a'r Cynllun Lles Anifeiliaid i law ac mae'r ymgeiswyr yn aros am eu cyfweiliadau. Mae'r SCHTh yn parhau â'r ymgyrch recriwtio ar gyfer pob cynllun gwirfoddoli. Mae rheolwyr cynlluniau'n gweithio ochr yn ochr â thîm ymgysylltu SCHTh i gynhyrchu deunydd cyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltu â'r cymunedau i addysgu a hyrwyddo'r cynlluniau. Mae 84% o Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn weithredol ac 16% ar seibiant Mae 100% o aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd yn weithredol Mae 100% o aelodau'r Cynllun Lles Anifeiliaid yn weithredol Cynhaliwyd cyfanswm o 39 o ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn ystod y chwarter hwn. Ymhlith y pryderon mwyaf cyffredin a godwyd gan yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa roedd mynediad i bobl anabl, atgyweiriadau, problemau staffio a chyflenwi stociau bwyd. Nodir bod y darpariaethau gofal iechyd yn y ddalfa wedi gwella gyda'r darparwr newydd. Cynhaliwyd 11 ymweliad Cynllun Lles Anifeiliaid gydag 11 o gŵn yn cael eu harsylwi. Ni chodwyd unrhyw bryderon o ganlyniad i'r ymweliadau hyn.
Darparu gwasanaethau effeithiol a hygyrch i ddioddefwyr a phobl fregus		Disgwylir adroddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddiwedd mis Ebrill ar gyfer diwedd y flwyddyn. Derbyniwyd y templed a'i ddosbarthu i ddarparwyr yn barod i'w gwblhau. Mae pwyntiau craffu wedi'u hymgorffori mewn dyddiaduron i

		sicrhau cymeradwyo a chyflwyno i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ni dderbyniwyd cwynion gan CHTh ynghylch darparwyr gwasanaeth. Mae'r broses gwyno yn rhan o'r cylch archwilio blynyddol ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir. Mae cwestiynau craidd yn y templed caffael ynghylch sut y bydd gwasanaethau'n cael eu gwneud yn hygyrch o nifer o safbwyntiau gan gynnwys elfennau daearyddol, ffisegol, iaith, amrywiaeth, cydraddoldeb a gallu a rhoddir sgôr iddynt fel rhan o'r broses gaffael. Rydym hefyd yn sicrhau bod y cwestiynau hyn yn cael eu hymgorffori mewn prosesau tendro a gynhelir gan bartneriaid lle rydym yn fuddsoddwr ar y cyd. Bellach mae'n ofynnol i ddarparwyr gynnal asesiadau monitro cydraddoldeb blynyddol ochr yn ochr ag adroddiadau naratif; bydd hyn yn ychwanegol at y data sydd eu hangen ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn caffael dau arolwg dioddefwyr, un adborth traws-system ac un gwasanaeth mynediad agored i'r rhai na wnaethant adrodd am eu troseddau. Nid oes amserlen ar gyfer pryd y bydd y caffael yn cychwyn, ond bydd yn cymryd blwyddyn cyn rhoi'r arolwg ar waith ar ôl y caffael. Bydd setiau sampl dioddefwyr yn cael eu cymryd o bob heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Disgwylir diweddariadau pellach.
--	--	---

17j) Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am arfer swyddogaethau swydd y Prif Gwnstabl a'r rhai sydd o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Fel y manylir yn 17c	Amherthnasol	Amherthnasol

17k) Cyhoeddi gwybodaeth a nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a gwybodaeth y mae'r CHTh yn ei hystyried yn angenrheidiol i alluogi'r bobl sy'n byw yn ardal yr heddlu i asesu perfformiad y CHTh a'r Prif Gwnstabl

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â'r Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig		Mae gwaith wedi parhau ar y wefan wrth i welliannau pellach gael eu gwneud i gynllun yr wybodaeth gan sicrhau ei bod yn gyfredol ac yn hygyrch ac yn ymarferol. Mae mecanweithiau adolygu ar waith ac yn cael eu hadrodd i'r tîm uwch-reolwyr i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud mewn meysydd sydd angen sylw.
Cyhoeddi gwybodaeth mewn fformat hygyrch a hawdd ei gael		Mae'r Nod Ansawdd Tryloywder a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn dangos ansawdd yr wybodaeth sydd ar gael ar y wefan a pha mor hawdd yw hi i bawb gael gafael arni. Mae monitro rheolaidd y wefan yn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn hygyrch i bawb. Bydd hyn yn parhau yn y dyfodol gan y disgwylir y bydd gwefannau pob Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael eu monitro o ganlyniad i'r newid llywodraeth.
Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â Safonau'r Gymraeg		Mae'r holl wybodaeth a gyhoeddir yn cael ei chyfieithu fel mater o drefn fel arfer cyn cyhoeddi unrhyw beth, gan sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yr un fath bob amser.
Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau a gomisiynir yn rhagweithiol		Cynnwys y wefan wedi'i adolygu a'i ddiweddarau'n ddiweddar lle bo angen. Mae dolen i adran gwasanaethau SCHTh y wefan wedi'i chynnwys ym Mhecynnau Gwybodaeth i Ddioddefwyr. Mae dogfennau perfformiad a throsolwg gwasanaethau unigol ar gyfer canlyniadau 2023/24 bellach wedi'u lanlwytho i'r wefan. Gweithio gyda'r tîm Ymgysylltu i gynhyrchu clip ffilm wedi'i animeiddio i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau a gomisiynir ymhlith y cyhoedd ac yn fewnol gyda'r heddlu.

		Mae tîm Ymgysylltu CHTh wedi'i gysylltu â thimau'r wasg o fewn yr holl wasanaethau a gomisiynir ac wedi sefydlu gweithgor i rannu erthyglau cyfryngau cymdeithasol a'r wasg ar y cyd. Ymhlith erthyglau i'r wasg roedd: Cyhoeddi Cymorth i Ddioddefwyr fel darparwr gwasanaeth newydd i ddioddefwyr ardal Dyfed-Powys Ymgynghoriad yn parhau mewn perthynas ag enw newydd y gwasanaeth dioddefwyr. Mae pob contract yn cynnwys gofyniad safonol ar gyfer hyrwyddo gwasanaethau. Mae cyfarfodydd gweithredu gwasanaethau yn cynnwys canolbwyntio ar gynlluniau cyfathrebu yn ystod camau gweithredu ac ar ddechrau darparu gwasanaeth mewn cysylltiad â SCHTh a chyfathrebu'r heddlu lle bo'n briodol. Mae'n ofynnol i wasanaethau a gomisiynir gydnabod ffynhonnell ariannu CHTh/y Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mhob cyhoeddusrwydd a deunydd. Mae'n ofynnol i ddarparwyr gynnal asesiadau cydraddoldeb a darparu tystiolaeth o weithgarwch codi ymwybyddiaeth ym mhob cymuned. Bydd hyn yn ein helpu i lywio unrhyw feysydd ffocws penodol sydd eu hangen ar gyfer cynlluniau gwasanaeth yn y dyfodol.
--	--	---

17I) Cydymffurfio â phob cais ffurfiol rhesymol gan y panel i fynychu eu cyfarfodydd

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Presenoldeb chwarterol yng nghyfarfodydd y Panel Heddlu a Throsedd		Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a swyddogion perthnasol yn mynychu holl gyfarfodydd y Panel Heddlu a Throsedd yn ôl yr angen. Cynhelir trafodaethau rheolaidd rhwng y Prif Weithredwr a swyddog allweddol y panel i sicrhau bod aelodau'n derbyn gwybodaeth berthnasol ac amserol.

Darparu dogfennaeth i'r Panel Heddlu a Throseddu yn unol â'u ceisiadau		Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a swyddogion perthnasol yn mynychu holl gyfarfodydd y Panel Heddlu a Throseddu yn ôl yr angen. Cynhelir trafodaethau rheolaidd rhwng y Prif Weithredwr a swyddog allweddol y panel i sicrhau bod aelodau'n derbyn gwybodaeth berthnasol ac amserol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu blaenraglen waith ar gyfer 2025/26.
Cyswllt rheolaidd rhwng SCHTh a'r Panel Heddlu a Throseddu i gefnogi cyflawni dyletswyddau statudol		Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a swyddogion perthnasol yn mynychu holl gyfarfodydd y Panel Heddlu a Throseddu yn ôl yr angen. Cynhelir trafodaethau rheolaidd rhwng y Prif Weithredwr a phrif swyddog y panel i sicrhau bod aelodau'n derbyn gwybodaeth berthnasol ac amserol.

17m) Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol i'r panel ar gyflawniad y CHTh yn erbyn yr amcanion a osodwyd yn y cynllun		Mae gwaith wedi dechrau ar Adroddiad Blynyddol 2024/2025 a bydd yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor yn ystod 2025/2026.

17n) Monitro pob cwyn a wneir yn erbyn swyddogion a staff, ac yn gyfrifol am gwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Ymdrin â chwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl		Yn ystod y cyfnod hwn derbyniwyd un gŵyn yn erbyn y Prif Gwnstabl. Nid oedd y gŵyn yn

		cyrraedd y trothwy i gael ei chyfeirio at Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Defnyddiodd yr achwynydd ei hawl i gael adolygiad gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ond gwrthodwyd ei apêl.
Sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith yn barod ar gyfer rolau cynyddol y CHTh mewn cwynion fel yr amlinellir yn Neddf yr Heddlu a Throseddau 2017		Yn ystod y cyfnod hwn cafwyd deg adolygiad newydd. Cadarnhawyd un o'r adolygiadau a darparwyd argymhellion i'r heddlu a dderbyniwyd. Ni chadarnhawyd wyth adolygiad, ond nodwyd amryfusedd mewn perthynas ag amseroldeb trin y cwynion ac achlysuron lle nad oedd diweddariadau 28 diwrnod yn cael eu darparu.

18) Rhaid i CHTh beidio â llyffetheirio annibyniaeth weithredol yr heddlu

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Datblygu ac adolygiad blynyddol y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol		Mae Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig wedi'i ddatblygu. Mae'r fframwaith wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio ar y Cyd a chafodd ei gytuno yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 31 Mawrth 2025.

19) Mynediad at wybodaeth, swyddogion a staff

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Trin gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data		Fel corfforaeth undyn, mae'r SCHTh yn destun ceisiadau rhyddid gwybodaeth ac yn gyfrifol amdanynt. Daeth 13 cais rhyddid gwybodaeth i law yn ystod y cyfnod ac roedd gan y SCHTh wybodaeth ar gyfer saith ohonynt. Roedd y ceisiadau'n ymwneud â chynrychiolaeth undebau llafur, iawndal am derfysgoedd, parodrwydd ar gyfer deallusrwydd artiffisial, trwyddedu arfau saethu, cwynion y Prif Gwnstabl, gwariant a'r CHTh fel endid corfforaethol. Y cyfan

		Roedd gweddill y ceisiadau yn ymwneud â materion gweithredol a chyfeiriwyd y ceisydd at yr heddlu. Ni ddaeth unrhyw geisiadau am fynediad at ddata gan y testun i law yn ystod y cyfnod.
--	--	--

20a) Darparu diogelwch cymunedol a lleihau trosedd

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Datblygu a gweithredu fframwaith llywodraethu ar gyfer comisiynu a phartneriaethau		Strategaeth gomisiynu yn ei lle sy'n disodli dogfennau blaenorol. Ar gael ar wefan newydd CHTh. Strategaeth yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd ar gyfer tymor 4. Mae craffu ar wasanaethau a gomisiynir a'r sefydliadau sy'n derbyn cyllid y comisiynydd wedi'i ymgorffori yn strwythur llywodraethu cyffredinol SCHTh. Mae'r dull pwyllgor dethol arfaethedig yn rhoi cyfle i ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir i gyfrannu. Gall hyn fod yn ddeublyg o ran cyfrannu tystiolaeth a her fel y bo'n briodol ond hefyd i gyflwyno cyd-destun a pherfformiad eu darpariaeth gwasanaeth gan sicrhau bod hyn yn cael ei blethu i ffrydiau gwaith yr heddlu a phartneriaid. Mae'r Tîm Comisiynu yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Polisi i gyfrannu at y pwyllgor dethol cyntaf sy'n canolbwyntio ar garfan bontio plant a phobl ifanc. Mae adroddiad ar berfformiad ac adroddiad ar y prif bwyntiau ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd bellach wedi'i ymgorffori fel eitem ar yr agenda yn y Bwrdd Perfformiad Strategol newydd. Cofrestr contractau yn ei lle ac wedi'i hadolygu ar gyfer cyfnod 4, ochr yn ochr â gwerthuso a chynllun archwilio ar gyfer dyfodol yr holl wasanaethau a gomisiynir. Cyfarfodydd rheolaidd

rhwng y Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau a'r Pennaeth Caffael. Daeth tri ymarfer caffael i ben ac mae un heb ei gynnal eto ar gyfer 2024/25.

Gwahoddwyd pob cyswllt partneriaeth, gan gynnwys rheolwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, i ddigwyddiadau ymgynghori ym mis Medi 2024. Gwahoddir partneriaid i ddigwyddiad lansio a gweithdai ar 13 Chwefror i gytuno ar brosiectau amlasiantaeth sy'n cyfrannu at bob strategaeth.

Mae'r tîm Sicrwydd yn gweithio gyda'r swyddog Cymorth Comisiynu a Phartneriaethau i adolygu gwasanaethau trais rhywiol. Mae hyn yn cynnwys samplu ar hap gan y Panel Sicrhau Ansawdd ac adolygiad o effaith ar y gwasanaeth gan ddefnyddio cymhariaeth cost troseddu. Bydd hyn yn darparu fframwaith ar gyfer mesur gwasanaethau eraill.

Cyflwynwyd tystiolaeth gwerth am arian drwy Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar gyfer rownd dau o'r adolygiad gwariant. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar bobl ifanc coll a gwasanaethau trais rhywiol, yn ogystal â ffeithluniau sy'n dangos canlyniadau a gyflawnir gan wasanaethau.

Blaenoriaethau a chynllun cyflawni Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol wedi'u halinio â blaenoriaethau Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru. Cymeradwyo cynllun cyflawni 2024/25, sy'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol megis cynllun gwneud iawn â'r gymuned ochr yn ochr â gwaith cenedlaethol ar Cod Ymarfer i Ddiodefwyr, a cham-drin domestig ac ati. Gwahoddiad i aelodau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol i ddigwyddiad lansio a gweithdy penodol ar 13 Chwefror yn canolbwyntio ar y cynllun cyflawni ar gyfer y dyfodol. Mae cynllun cyflawni 2025/26 bellach ar ffurf drafft, ac mae sgysiau pellach gyda phartneriaid wedi'u trefnu er mwyn sicrhau bod unrhyw flaenoriaethau

		strategol traws-sefydliadol priodol yn cael eu cynnwys.
Comisiynu gwasanaethau i gefnogi diogelwch cymunedol a lleihau trosedd		Mae grant dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael arian cyfatebol gan gyllid craidd CHTh. Cyfanswm y grant ar gyfer 2024/25 yw £1,411,634 o gyfanswm cyllideb gomisiynu o £2.74 miliwn. Felly, mae'r CHTh yn darparu tua 49% o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau. Nodir hyn yn natganiadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder lle caiff arian cyfatebol ei adrodd i weinidogion. Cafwyd cadarnhad ym mis Rhagfyr 2024 y bydd y grantiau i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sydd wedi'u glustnodi yn parhau ar y lefel bresennol yn 2025/26. Cafwyd gostyngiad o 4.2% yn y grant craidd i ddioddefwyr, gan arwain at ostyngiad real o £25,422. Bydd y CHTh yn gweithio i sicrhau nad yw hyn yn effeithio ar wasanaethau rheng flaen. Trefnir cyfarfodydd chwarterol rhwng rheolwyr gwasanaethau troseddau ieuenctid ac atal troseddu ymhlith ieuenctid, rheolwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a chynrychiolwyr SCHTh. Mae swyddogion polisi yn cynrychioli SCHTh ar yr holl Fyrddau Rheoli Troseddau Ieuenctid a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol ar draws ardal yr heddlu. Cyfiawnder ieuenctid yw prif ffocws Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ar hyn o bryd. Mae cynrychiolydd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a chynrychiolydd y Bwrdd Cynllunio Ardal yn aelodau o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol sy'n arwain ar waith atal. Mae gwaith yn parhau gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a phartneriaethau gwasanaethau troseddau ieuenctid ac atal troseddu ymhlith ieuenctid i gyflawni'r Ddyletswydd Trais Difrifol, yn enwedig datblygu ymyriadau o dan y cynllun cyflawni. Roedd cyfarfod ym mis Ionawr gyda rheolwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn cynnwys lansio'r Cynllun Heddlu a Throseddau newydd,

cynlluniau rhannu gwybodaeth, Ymgyrch Florida (gweithwyr camddefnyddio sylweddau yn mynychu digwyddiadau curo'r drws gyda thimau plismona bro ac atal i nodi'r rhai sydd ar gyrion gweithgarwch troseddol a chynnig llwybr i driniaeth), materion diogelwch ffyrdd ym Mhowys a gwaith atal ar draws pob ardal.

Roedd cyfarfod mis Ionawr gyda rheolwyr gwasanaethau troseddau ieuenctid ac atal troseddu ymhlith ieuenctid yn cynnwys trafod pryderon ynghylch diffyg rôl arweiniol uwch o fewn Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer cyfiawnder ieuenctid, a gydnabyddir hefyd yn yr arolygiad diweddaraf o wasanaethau Sir Benfro, a'r oedi a brofir wrth atgyfeirio at yr heddlu ac anghysondeb yn y canlyniadau a geir. Disgwylir i reolwyr partneriaethau gwasanaethau troseddau ieuenctid ac atal troseddu ymhlith ieuenctid gyflwyno achos busnes i'r CHTh ar gyfer cyllid parhaus o fis Ebrill 2025 am gyfnod o dair blynedd.

Mae telerau ac amodau grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael eu bodloni a chydymffurfiaeth yn cael ei chofnodi a'i chymeradwyo gan y Prif Swyddog Ariannol ar gyfer ffurflenni grant. Mae cytundebau grant a chontractau gyda darparwyr yn sicrhau bod y telerau ac amodau priodol yn cael eu bodloni. Mae'r amserlen archwilio yn cynnwys gwiriadau ar gydymffurfiaeth.

Mae darparu cyfiawnder adferol yn swyddogaeth statudol i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, sy'n gweithio gyda gwasanaethau dioddefwyr i nodi a chysylltu â dioddefwyr fel y bo'n briodol. Mae cynnig cyfiawnder adferol yn hawl i ddioddefwr o dan y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr. Rhoddodd arweinydd yr heddlu ddiweddariad i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ym mis Mawrth 2025; mae cyfiawnder adferol yn dal i gael ei ddefnyddio'n effeithiol o fewn gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ond nid yw'n cael ei gynnig yn rheolaidd i ddioddefwyr sy'n oedolion o fewn Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r

		Prif Arolygydd wedi cyfarfod ag arweinydd cenedlaethol Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu i geisio arferion gorau, gyda heddluoedd cymharol eraill a'r Cyngor Cyfiawnder Adferol. Prif Arolygydd i ddarparu adroddiad ac argymhellion i'r Prif Uwcharolygydd, gan gynnwys gofynion ariannol, hyfforddiant, newidiadau i'r system ac ati. Gwahoddwyd pob cyswllt partneriaeth, gan gynnwys rheolwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, i ddigwyddiadau ymgynghori ym mis Medi 2024. Gwahoddir partneriaid i ddigwyddiad lansio gyda gweithdai ar 13 Chwefror i gytuno ar brosiectau amlasiantaeth sy'n cyfrannu at bob strategaeth.
--	--	--

20b) Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Amherthnasol yng Nghymru	Amherthnasol	Amherthnasol

20c) Grantiau lleihau trosedd ac anhrefn

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Datblygu a gweithredu fframwaith ar gyfer darparu grantiau trosedd ac anhrefn		Mae gwaith wedi'i gwblhau i ddiweddarau'r ffurflen gais am gyllid yn unol â'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd. Bydd hyn yn cael ei asesu yn chwarter 4 gan uwch arweinwyr. Mae adrannau craffu ariannol ar gyfer cynigion grantiau mwy wedi'u cynnwys yn y ffurflen gais sy'n cynnwys cais am ddatganiadau ariannol a chwblhau holiadur diwydrwydd dyladwy.

		Mae elfen cyllid cyfatebol y cais yn cael ei hadolygu a disgwylir penderfyniadau yn chwarter 1 2025/26.
Darparu grantiau lleihau trosedd ac anhrefn o fewn 2024/2025		Yn ystod chwarter 4, mae dau gais newydd am gyllid a/neu roddion wedi cael eu cymeradwyo gyda gwerth gofynnol o £20,185.15. Daeth 18 o ymholiadau am gyllid i law yn ystod chwarter 4, mae rhai yn cael eu datblygu ac rydym yn aros am geisiadau am gyllid. Mae'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael grant CHTh wedi cael gwybod a darparwyd cyngor iddynt ar ffynonellau cyllid grant eraill i gefnogi eu gweithgareddau.
Gwerthusiad o grantiau lleihau trosedd ac anhrefn i bennu enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad		Fel rhan o'r adolygiad o'r cais am gyllid i gyd-fynd â'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd, ceisiwyd cyngor gan arweinwyr Caffael a Chynaliadwyedd i adolygu ac adnewyddu'r cynnwys. Gwnaed un newid bach i sicrhau bod ymgeiswyr yn deall eu cwestiynau am werth cymdeithasol a chynaliadwyedd a chaniatáu iddynt ddarparu ymatebion cadarn y gellir eu hasesu'n llawn yn erbyn y broses sgorio. Os dyfernir cyllid, mae'r wybodaeth am werth cymdeithasol a chynaliadwyedd sydd wedi'i chynnwys yn eu ffurflen gais yn elfen annatod o amserlenni gwerthuso a monitro'r contract grant. Caiff hyn ei asesu yn unol ag amserlenni'r grant ac yn benodol i'r trefniant gyda'r ymgeisydd.

20d) Cytundebau cydweithio

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
------------------	-------------------	--------------------------------

20e) Cyfrifoldeb ehangach am wella darpariaeth cyfiawnder troseddol yn eu hardal

Camau i'w cymryd	COCH MELYN GWYRDD	Diweddariad cynnydd chwarter 4
Monitro perfformiad yr holl wasanaethau a gomisiynir, gan sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn rhoi gwerth am arian		Cynhaliwyd cyfarfodydd adolygu chwarter 3 i gyd. Mae adolygiad o'r holl wasanaethau wedi'i gynnal o ran cynnydd yn y galwadau ar y gyllideb i adlewyrchu'r cynnydd diweddar mewn Yswiriant Gwladol a chostau byw. Lle mae gwasanaethau wedi cael eu hailgomisiynu, mae hyn wedi cael ei ystyried ac ar gyfer unrhyw rai eraill, mae cynnydd cymesur wedi cael ei gytuno gan y Prif Swyddog Cyllid. Mae archwiliad blynyddol yn cynnwys adolygiad o amseroldeb a chynnydd cadarnhaol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol. Derbyniwyd adroddiadau yn brydlon ar gyfer chwarter 3, ac mae adroddiadau chwarter 4 yn ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae CHTh yn parhau i ymweld â gwasanaethau priodol fel rhan o ddiwrnodau ymgysylltu cymunedol. 26 Mawrth 2025 Ymwelodd CHTh â Pobl yn Aberhonddu. Estyn gwahoddiad i Gymorth i Ddioddefwyr i fynychu ein Diwrnod Agored Ieuenctid ym mis Ebrill. Mae craffu ar gyllid y comisiynydd wedi'i ymgorffori o fewn strwythur llywodraethu cyffredinol SCHTh. Mae'r dull pwyllgor dethol arfaethedig yn rhoi cyfle i ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir i gyfrannu. Gall hyn fod yn ddeublyg o ran cyfrannu tystiolaeth a her fel y bo'n briodol ond hefyd i gyflwyno cyd-destun a pherfformiad eu darpariaeth gwasanaeth gan sicrhau bod hyn yn cael ei blethu i ffrydiau gwaith yr heddlu a phartneriaid. Mae'r tîm Comisiynu yn gweithio'n agos gyda Pholisi i gyfrannu at y

		pwyllgor dethol cyntaf sy'n canolbwyntio ar garfan bontio plant a phobl ifanc.
Cyfraniad CHTh i agenda Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan		Mae uchafbwyntiau allweddol yn yr adroddiad diweddar yn cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol a ddarparwyd gan BAWSO o dan gyllid Dyletswydd Trais Difrifol, 25 mlynedd o Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd a diweddariad ar gyfathrebu ac adolygu gan gynnwys ffocws ar dai fel angen blaenoriaeth allweddol i droseddwr, cynnydd cadarnhaol gydag ehangu prosiect tai Rheoli Troseddwr Integredig yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro a phrosiectau lleol Gwneud Iawn â'r Gymuned. Cynhaliwyd cyfarfod y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ym mis Mawrth 2025. Ffocws ar bobl sy'n troseddu, gyda diweddariadau allweddol ar Gwneud Iawn â'r Gymuned, Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd, anghenion troseddogenig carfanau troseddu, Rheoli Troseddwr Integredig, cyfiawnder adferol a throseddu benywaidd. Bydd llawer o'r rhain yn cael eu hystyried yn gamau blaenoriaeth o fewn cynllun cyflawni newydd 2025/26.
Cyfrifoldebau portffolio cenedlaethol CHTh		Mae'r portffolios cenedlaethol wedi cael eu hadolygu ac mae'r comisiynydd yn aelod o'r byrddau canlynol: • Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan • Plismona yng Nghymru (Cadeirydd) • Bwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu • Bwrdd Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel • Bwrdd Diogelu Unedig Sengl gyda Llywodraeth Cymru • Rhwydwaith Troseddau Gwledig Cenedlaethol • Cadeirydd Grŵp Llywio Cyflog Byw Canolbarth a Gorllewin Cymru Mae meysydd arweiniol penodol wedi'u cytuno rhwng y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Llywelyn yn arwain ar y portffolios canlynol:

		• Perfformiad, data ac ymchwil academiaidd • Plant a phobl ifanc (gan gynnwys cyfiawnder ieuenctid) • Cymunedau a phartneriaethau (gan gynnwys plismona bro a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu) • Materion gweithlu a safonau moesegol • Goruchwyliaeth weithredol (bwrdd cydweithio, plismona'r ffyrdd, Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu a Chyd-uned Arfau Tanio Platinwm) • Cyllid, cyllidebau a chaffaeliad
--	--	--